# RHYBUDD O GYFARFOD

*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

***Jonathan Cawley***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E.bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 11 Ebrill 2025 |
| **Amser:** | 2.00 y.p. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Anfonir cyfarwyddiadau ymuno at yr Aelodau ar wahân***

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Y Cynghorwyr :***
*Elfed Roberts, Nia Owen;*

*Naomi Luhde-Thompson.*

***Aelodau Annibynnol***
*Mr. Martin James Hughes, Mr. Mark Jones.*

# R H A G L E N
## Pwyllgor Safonau

| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Cadeirydd**<br>Ethol Cadeirydd I'r Pwyllgor Safonau | |
| 2. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd** | |
| 3. | **Datgan Budd**<br>Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes. | |
| 4. | **Cofnodion**<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 20 Medi 2024 fel rhai cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth. | 3 - 5 |
| 5. | **Adroddiad Blynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.  (Copi yma) | 6 - 8 |
| 6. | **Datganiadau o Fuddiannau Aelodau**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.  (Copi yma) | 9 - 15 |
| 7. | **Pwyllgor y Fforwm Safonau Cenedlaethol – Dydd Llun 27 Ionawr 2025**<br>Derbyn cofnodion y cyfarfod, er gwybodaeth (copi yma) ynghyd ag adroddiad llafar gan yr Is-Gadeirydd | |

**PWYLLGOR SAFONAU**
**DYDD GWENER 20 MEDI 2024**

***YN BRESENNOL***:

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorydd Elfed P. Roberts;

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorydd Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau Annibynnol**
Sharon Warnes (Cadeirydd), Mr. Martin J. Hughes, Mr. Mark Jones.

**Swyddogion**
Mr. G. Iwan Jones, Ms. Bethan Hughes

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio i Gynorthwyo gyda gwirio'r cofnodion.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar ei rôl newydd fel Prif Weithredwr Dros Dro. Diolchodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Cadeirydd ond cadarnhaodd y byddai'r rôl yn dod i ben unwaith y byddai Prif Weithredwr newydd wedi'i benodi. Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cyng. Dilwyn Owain Roberts ar ei rôl newydd gyda Chabinet Cyngor Conwy. Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol mai hwn oedd cyfarfod olaf Mrs. Sharon Warnes (Cadeirydd) ac , ar ran yr Aelodau a'r Swyddogion cydnabu gyfraniad gwerthfawr Mrs Warnes i waith yr Awdurdod. Dywedodd y Cadeirydd mewn ymateb ei bod wedi mwynhau ei chyfnod fel Aelod o'r Pwyllgor Safonau yn fawr a dymunodd yn dda i bawb i'r dyfodol. Cynghorwyd yr Aelodau hefyd fod Mrs. Sarah Hattle, Aelod o Lywodraeth Cymru, wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Awdurdod. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod i enwebu dau aelod arall ar y Pwyllgor Safonau a chyn gynted ag y byddai tymor y Cadeirydd yn dod i ben, byddai'r Awdurdod hefyd yn hysbysebu am Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

2. **Datganiad Buddiant**
Datganodd y Cyng. Dilwyn Roberts a'r Cyng. Elfed Roberts fuddiant personol yn eitem 7 ar y Rhaglen, o dan baragraff 10(2)(a)(ix)(aa) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau.

3. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2024 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

Yn codi wedi hynny,

<u>Eitem 4 – Adroddiad Blynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod</u>
Cynghorodd y Cadeirydd fod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i gyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod.

Yn codi wedi hynny, cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau hefyd wedi'i gynnal ym Mhencadlys y Parc

Cenedlaethol ym Mhenrhyndeudraeth a bu'n llwyddiannus ac yn dilyn trafodaethau pellach, penderfynwyd cynnal pob cyfarfod yn y Pencadlys ar ôl yr 2[il.] Hydref 2024.

Cadarnhaodd hefyd fod mewnbwn y Cadeirydd i adroddiad Archwilio Cymru ar Lywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a mewnbwn y Pwyllgor Safonau i Adolygiad Penn wedi'i adrodd yn flaenorol yn Adroddiad Blynyddol 2023 ac felly nid oedd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol cyfredol.

Eitem 5 – Adroddiad gan Archwilio Mewnol ar Gymorth a Ddarperir i Aelodau'r Awdurdod
Cynghorodd y Cadeirydd fod pryder y Pwyllgor Safonau ynghylch diffyg ymgysylltiad Aelodau wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

Eitem 7 – Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau Cymru
Ymddiheurodd y Cadeirydd nad oedd y cofnodion wedi'u cynnwys ar yr agenda ond byddai'n eu dosbarthu i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn cyfarfod heddiw. Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r cofnodion i'r Aelodau a dywedodd ei fod bellach wedi'i enwi'n Fforwm Cymru Gyfan. Hysbyswyd yr Aelodau bod y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar Ionawr 27[ain], 2025, a chan ei bod yn annhebygol y byddai'r Cadeirydd newydd yn cael ei benodi erbyn hynny, cytunodd y Swyddogion a'r Aelodau y dylai Mr. Martin Hughes fod yn bresennol.

4. **Enwebu aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl**

**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i benodi tri Aelod a dau ddirprwy aelod i'r Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl.

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir, a thrafododd yr Aelodau aelodaeth y Panel yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi'r adroddiad.**
2. **penodi'r Cyng. Elfed P. Roberts, Mr. Mark Jones a Mr. Martin J. Hughes yn Aelodau o'r Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl a phenodi'r ddau Aelod newydd o'r Pwyllgor Safonau fel aelodau dirprwyol .**

5. **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i hysbysu'r Pwyllgor ar ddatblygiadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwn.

**Adroddwyd** - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir a dywedodd fod yr adroddiad llawn fel arfer wedi'i gynnwys ar yr Agenda ond dim ond y ddolen i'r Adroddiad Blynyddol oedd wedi'i gynnwys.

Credai'r Aelodau y dylai Swyddogion a staff yr Awdurdod ymfalchïo bod cyn lleied o gwynion yn dod i law, yn enwedig oherwydd natur gwaith yr Awdurdod. Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol â'r Aelodau a dywedodd fod y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yn delio ag unrhyw gwynion yn effeithiol er mwyn osgoi cael eu gwneud yn gwynion ffurfiol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chofnodi gwerthfawrogiad y Pwyllgor Safonau i'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer am ei gwaith caled yn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin mewn modd effeithlon ac amserol.**

6. **Caniatáu Goddefebau**

**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn argymell bod y Pwyllgor Safonau yn caniatáu gollyngiad cyffredinol i Aelodau Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a chadarnhaodd fod y goddefebau a ganiatawyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Safonau wedi gweithio'n dda.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a chytunwyd i gymeradwyo'r goddefeb cyffredinol, yn unol â'r telerau a amlinellwyd yn yr adroddiad, er mwyn sicrhau y gallai'r Awdurdod gynnal ei fusnes yn effeithiol. Cynghorodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Swyddogion yn cadw golwg ar eitem lle byddai hon yn weithredol er mwyn gwahodd Aelodau'r Pwyllgor Safonau i weld sut y defnyddiwyd y Caniatád i ddefnyddio Goddefebau, ond yn anffodus nid oedd unrhyw eitemau wedi codi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**PENDERFYNWYD**

1. **caniatáu goddefeb i'r Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd (Sail 2[a] a [d]) i'w galluogi i gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â Chyngor Gwynedd hyd at 31 Rhagfyr 2025, oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach gan penderfyniad y Pwyllgor hwn cyn 31 Rhagfyr 2025.**
2. **caniatáu goddefeb i'r Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Sail 2 [d]) i'w galluogi i gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hyd at 31 Rhagfyr 2025, oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach gan benderfyniad o'r Pwyllgor hwn cyn Rhagfyr 31 2025.**

7. **Adroddiad Monitro Cwynion**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn 2023/24.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac amlinellodd y prif bwyntiau.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Diolchodd yr aelodau i'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer am adroddiad clir a chryno.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cynghorodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer nad oedd gan yr Awdurdod Weithdrefn Datrys Lleol ond dywedodd fod Swyddogion yn cael eu hannog i ddatrys unrhyw fân gwynion cyn iddynt ddod yn ffurfiol. Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod mabwysiadu penderfyniad lleol yn rhywbeth i ymchwilio iddo.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r staff am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 14.40**

**EITEM RHIF 5**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Safonau |
| **DYDDIAD** | 11 Ebrill 2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Blynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol |

## CEFNDIR

1. O fis Mai 2022 mae cylch gwaith y Pwyllgor Safonau wedi cynnwys dyletswydd statudol ychwanegol i baratoi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ar sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni a darparu trosolwg o faterion ymddygiad yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod.
2. Yn flaenorol, cytunwyd y byddai Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn paratoi'r adroddiad hwn, ond yn trafod y cynnwys arfaethedig gyda'r Pwyllgor Safonau cyn cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Awdurdod, gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno'r adroddiad i'r Awdurdod yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod.

## DYLETSWYDD STATUDOL A CHYFARWYDDYD DRAFFT

3. Mae canllawiau wedi'u paratoi ar y pwnc sy'n darllen fel a ganlyn:
   - *3.1. "Mae adran 63 o Ddeddf 2021 yn mewnosod adran 56B newydd yn Neddf 2000 sy'n gosod gofyniad ar bwyllgorau safonau ym mhob "awdurdod perthnasol" i wneud adroddiad blynyddol i'r awdurdod o dan sylw. Yn achos prif gyngor, mae'r gofyniad i adrodd i "yr awdurdod" yn y cyd-destun hwn yn cynnwys unrhyw gynghorau cymuned yn ei ardal.*
   - *3.2. Fel isafswm, rhaid i'r adroddiad:*
     - *3.2.1. ddisgrifio sut mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol;*
     - *3.2.2. cynnwys crynodeb o adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymwneud ag ymchwilio i achosion honedig o dorri'r cod ymddygiad aelodau, ac unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y pwyllgor;*

*3.2.3. cynnwys crynodeb o hysbysiadau a roddwyd i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru, yn ymwneud â phenderfyniadau'r Panel ar achosion posibl o dorri'r cod ymddygiad yr aelodau;*

*3.2.4. disgrifio'r cyngor y mae wedi'i ddarparu ar hyfforddiant i bob aelod a sut mae hwnnw wedi'i roi ar waith, ac*

*3.2.5. yn achos prif gyngor, cynnwys asesiad y pwyllgor o sut mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd o dan adran 52A(1) o Ddeddf 2000 (a fewnosodwyd gan adran 62 o Ddeddf 2021) i hybu safonau ymddygiad uchel , gan gynnwys y cyngor y mae'r pwyllgor safonau wedi'i ddarparu a'r hyfforddiant y mae wedi'i awgrymu.*

*3.3. Efallai y bydd y pwyllgor hefyd am adrodd ar nifer yr achosion a ystyriwyd o dan brosesau datrys lleol. Byddai hyn yn helpu i gasglu data ar sail "Cymru gyfan", ar faterion nad ydynt yn cyrraedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.*

*3.4. Bwriad y gofyniad i lunio adroddiad blynyddol yw sicrhau bod dull rheolaidd a chyson o adrodd ac ystyried safonau ymddygiad gan aelodau awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Bwriad hyn yw hyrwyddo perchnogaeth leol a chyfrifoldeb ar y cyd gan aelodau am sicrhau safonau ymddygiad uchel o fewn eu hawdurdod. I'r perwyl hwn, mae adran 56B yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdod perthnasol i ystyried yr adroddiad ac unrhyw argymhellion a wneir gan ei bwyllgor safonau o fewn tri mis o'i dderbyn. Bydd ystyriaeth yr awdurdod o adroddiad yn fater o gofnod cyhoeddus drwy gofnodion cyhoeddedig y cyfarfod.*

*3.5. Byddai'n arfer da i Bwyllgorau Safonau rannu eu Hadroddiadau Blynyddol gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru."*

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

4. Os bydd rhywun yn ystyried y canllawiau drafft a'r materion y mae'n rhaid adrodd arnynt, cynigir adrodd fel a ganlyn:

4.1. Bod y pwyllgor wedi cyfarfod ddwywaith yn ystod y flwyddyn, wedi ystyried hyfforddiant aelodau ar y ddau achlysur.

4.2. Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus nac at Banel Dyfarnu Cymru yn ymwneud ag ymchwilio i achosion honedig o dorri cod ymddygiad yr aelodau fel aelodau o'r Awdurdod hwn.

4.3. Na fu unrhyw achosion yn ystod y flwyddyn lle mae gweithdrefn Datrysiad Lleol yr Awdurdod wedi'i rhoi ar waith.

4.4. Rhoddodd y Pwyllgor Safonau ystyriaeth i gynnwys yr Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

4.5. Bu'r Pwyllgor Safonau hefyd yn ystyried Adroddiad Monitro Cwynion a oedd yn rhoi cipolwg ar natur y cwynion a dderbyniwyd ac a oedd unrhyw batrymau sefydledig yn dod i'r amlwg.

4.6. Rhoddodd y Pwyllgor Safonau ollyngiadau i aelodau Cyngor Gwynedd ac aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan ganiatáu iddynt gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar faterion dan rai amgylchiadau cyfyngedig.

4.7. Bu'r Pwyllgor Safonau hefyd yn ystyried adroddiad a oedd yn monitro datganiadau buddiannau a wnaed gan aelodau fel rhan o'i gylch gwaith wrth fonitro gweithrediad y cod ymddygiad.

## GOBLYGIADAU ADNODDAU

Dim

## ARGYMHELLIAD

**1. Trafod cynnwys yr adroddiad.**

**2. Cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Awdurdod fel y nodir yn Adran 4 uchod yn amodol ar unrhyw ychwanegiadau/diwygiadau y gallai'r Pwyllgor Safonau ddymuno eu gwneud iddo.**

## PAPURAU CEFNDIR

**EITEM RHIF 6**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Safonau |
| **DYDDIAD** | 11 Ebrill 2025 |
| **TEITL** | **Datganiadau o Fuddiannau Aelodau** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Monitro gweithrediad y cod ymddygiad |

## CEFNDIR

Ar 3 Medi 2021 bu i'r Pwyllgor Safonau ystyried adroddiad ar y Fframwaith Moesegol a'r Canllawiau Diwygiedig a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y Cod Ymddygiad. Fel rhan o'r camau gweithredu mynegodd yr Aelodau awydd i'r Pwyllgor Safonau fonitro gweithrediad y cod ymddygiad, a cytunwyd y byddai swyddogion yn darparu manylion datganiadau diddordeb Aelodau i'r Pwyllgor Safonau yn flynyddol.

Ynghlwm (Atodiad 1) mae copïau o'r ffurflenni Datganiad o Ddiddordeb Aelod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Hefyd, dilynwch y ddolen i weld y Gofrestr Gyffredinol o Fuddiannau Aelodau ar wefan yr Awdurdod.

Cyhoeddiadau - Parc Cenedlaethol Eryri (llyw.cymru)

## GOBLYGIADAU ADNODDAU

Dim

## ARGYMHELLIAD

I nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Snowdonia National Park Authority

## FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB
## DECLARATION OF INTEREST FORM

**Cyfarfod / Meeting ........** Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ........................................

**Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting**......... Dydd Mercher 4 Medi 2024 ...............

**Rwyf drwy hyn yn datgan bod gennyf Ddiddordeb Personol yn yr eitem ganlynol / I hereby declare that I have a Personal Interest in the following item:-**

**Pennawd yr eitem / Title of item:- Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir -** Estyniad i reilffordd trac cul Llyn Tegid

**Eitem Rhif/Item No**......4.......................................................................................

**Disgrifiwch natur y Diddordeb Personol/Describe nature of the Personal Interest:-**

Rwyf yn byw ym Modaeron, Heol Pen Sarn, Y Bala ac fe unwed gan yu swyddogion y byddai caniatau'r cais yn cael effaith ar Resdai Heol Pen Sarn

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

Nid yw'r diddordeb y gyfystyr â rhagfarnu

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

**A yw'r diddordeb personol gyfystyr â diddordeb sy'n rhagfarnu? Ydi / Yes**
**Does the Personal Interest constitute a prejudicial interest?**

**Nac ydi / No**

Aelod o Gyngor Gwynedd – gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau ar 01/09/23
Gwynedd Council Member – dispensation from the Standards Committee on 01/09/23

Elwyn Edwards. Medi'r 9fed 2024

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
**Snowdonia National Park Authority**

# FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB
# DECLARATION OF INTEREST FORM

**Cyfarfod / Meeting** PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD

**Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting** 16/10/24

**Rwyf drwy hyn yn datgan bod gennyf Ddiddordeb Personol yn yr eitem ganlynol / I hereby declare that I have a Personal Interest in the following item:-**

**Pennawd yr eitem / Title of item:-** ~~**Penodi Swydd Wag Achlysurol ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol y De**~~

**Eitem Rhif/Item No** EITEM RHIF 5.3 NP5/73/LB208B
+ 5.4 NP5/73/LB208C

**Disgrifiwch natur y Diddordeb Personol/Describe nature of the Personal Interest:-**

TAD YR YMGEISYDD

**A yw'r diddordeb personol gyfystyr â diddordeb sy'n rhagfarnu? Does the Personal Interest constitute a prejudicial interest?**

**Ydi / Yes** ☑

**Nac ydi / No** ☐

Aelod o Gyngor Gwynedd – gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau ar 01/09/23
Gwynedd Council Member – dispensation from the Standards Committee on 01/09/23

**Arwyddwyd/Signed:** [signature]

**Dyddiad/Date:** 16/10/24

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Snowdonia National Park Authority

## FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB
## DECLARATION OF INTEREST FORM

**Cyfarfod / Meeting** ...Pwyllgor Cynllunio...

**Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting**...5 Mawrth 2025...

**Rwyf drwy hyn yn datgan bod gennyf Ddiddordeb Personol yn yr eitem ganlynol / I hereby declare that I have a Personal Interest in the following item:-**

**Pennawd yr eitem / Title of item:-** ...NP4-11-95A Pont y Soldiwr...

**Eitem Rhif/Item No**...6.1...

**Disgrifiwch natur y Diddordeb Personol/Describe nature of the Personal Interest:-**

...Aelod Etholedig Sir Conwy, a'r Cyngor Sir oedd yr ymddeifydd...

**A yw'r diddordeb personol gyfystyr â diddordeb sy'n rhagfarnu? Does the Personal Interest constitute a prejudicial interest?**

**Ydi / Yes** ☑

**Nac ydi / No** ☐

Ond y Pwyllgor Safonau wedi rhoi gollyngiad.

**Arwyddwyd/Signed:** ...[signature]...

**Dyddiad/Date:** ...5 Mawrth 2025...

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
**Snowdonia National Park Authority**

## FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB
## DECLARATION OF INTEREST FORM

Cyfarfod / Meeting ......CYNLLUNIO

Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting......5/3/25

Rwyf drwy hyn yn datgan bod gennyf Ddiddordeb Personol yn yr eitem ganlynol / I hereby declare that I have a Personal Interest in the following item:-

Pennawd yr eitem / Title of item:- ......6.1

Eitem Rhif/Item No......NP4/11/95X

Disgrifiwch natur y Diddordeb Personol/Describe nature of the Personal Interest:-

WEDI CYFRANNU AR FY MOD WEDI CAEL GOLLYNIAD GAN YR PWYLLGOR SAFONNAU.

A yw'r diddordeb personol gyfystyr â diddordeb sy'n rhagfarnu? Does the Personal Interest constitute a prejudicial interest?

Ydi / Yes ☑

Nac ydi / No ☐

Arwyddwyd/Signed: ......[signature]

Dyddiad/Date: ......5/3/25

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Snowdonia National Park Authority

## FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB
## DECLARATION OF INTEREST FORM

**Cyfarfod / Meeting** ......................Planning and Access Committee......................

**Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting**......................5th March 2025...........................

**Rwyf drwy hyn yn datgan bod gennyf Ddiddordeb Personol yn yr eitem ganlynol / I hereby declare that I have a Personal Interest in the following item:-**

**Pennawd yr eitem / Title of item:- Sappers Bridge**

**Penodi Swydd Wag Achlysurol ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol y De**

**Eitem Rhif/Item No**.........NP4/11/95A.............................

**Disgrifiwch natur y Diddordeb Personol/Describe nature of the Personal Interest:-**

..............As an elected member at CCBC, I have declared a prejudicial interest in the above item.........

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**A yw'r diddordeb personol gyfystyr â diddordeb sy'n rhagfarnu? Does the Personal Interest constitute a prejudicial interest?** **Ydi / Yes Yes** [X]

**Nac ydi / No** [ ]

Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau ar 01/09/23
Conwy County Borough Council Member – dispensation from the Standards Committee on 01/09/23

**Arwyddwyd/Signed:** ........................Jo Nuttall..........................................................................................

**Dyddiad/Date:** ................ 5/3/25..................................................................................................